

Rhif: WG40995



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

Mwy Nag Ailgylchu



Dyddiad cyhoeddi: 11 Medi 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Gwerthusiad ac Adroddiad Cryno Ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu

Miller Research (UK) Ltd.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

rhiannon@miller-research.co.uk

nick@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

Tabl cynnwys

Crynodeb	iii
1. Cyflwyniad	1
2. Ymatebion i'r ymgynghoriad	4
3. Canfyddiadau	7
Argraffiadau cyffredinol	7
Adeiladu ar ein record ailgylchu	9
Rhoi cymorth i atal gwastraff ac ailddefnyddio	14
Llywio arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau	19
Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth	23
Galluogi cymunedau a busnesau	28
Buddsoddi mewn seilwaith	31
Cwestiynau eraill	34
4. Casgliadau	35
Atodiad A: Crynodeb o randdeiliaid	36
Atodiad B: Rhestr o ymatebion gan sefydliadau	37
Atodiad C: Penawdau – Ymgynghoriad Bangor	42
Atodiad D: Penawdau – Ymgynghoriad Arberth	47
Atodiad E: Penawdau – Ymgynghoriad Cas-gwent	50
Atodiad F: Penawdau – Ymgynghoriad yr Wyddgrug	53

Geirfa

Acronym / gair allweddol	Diffiniad
Arian cyfred	Currency
CITB	Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu
Deunydd eildro	Recyclate
DRS	Cynllun Dychwelyd Ernes
EPR	Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr
IGD	Institute of Grocery Distribution
LCA	Asesiad Cylch Bywyd
Parhauster	Durability
Prynwriaeth, prynwriaethol	Consumerism, consumerist
SME	Busnes bach neu ganolog

Crynodeb

- i. Rhwng misoedd Rhagfyr 2019 ac Ebrill 2020, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar strategaeth economi gylchol newydd, Mwy nag Ailgylchu. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio syniadau a chyfraniadau adeiladol at symud Cymru i ddod yn genedl ddiwastraff, ddi-garbon net sy'n defnyddio'i chyfran deg o adnoddau ac sy'n cydio yn y cyfleoedd economaidd wrth bontio at economi gylchol. Mae'r term diwastraff yn golygu ailgylchu 100% a dim gwastraff gweddilliol. Caiff Economi Gylchol ei diffinio, yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn, fel cadw adnoddau mewn defnydd gyhyd â phosibl ac osgoi gwastraff. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnwys chwe thema allweddol, gydag wyth prif gam gweithredu, sy'n troi o gwmpas y nod o gyflawni Cymru decach, wyrddach a mwy ffyniannus.
- ii. Roedd y broses ymgynghori'n cynnwys dwy elfen – digwyddiadau wyneb yn wyneb ac ymatebion ar-lein – er mwyn sicrhau cynnwys y trawstoriad ehangaf o ddinasyddion a rhanddeiliaid ledled Cymru a'r tu hwnt. Cynhaliwyd tua deugain o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb, gan gynnwys sesiynau gwahodd agored a digwyddiadau rhanbarthol wedi eu haddasu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol a oedd yn cynnwys pobl ifanc, awdurdodau lleol, busnesau, y sector gwastraff, grwpiau amgylcheddol, rheoleiddwyr, ac academyddion. Derbyniodd yr ymgynghoriad ar-lein 220 o ymatebion trwy lwyfan arolygon ar y we, e-bost a chopi caled. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddwy elfen y broses ymgynghori.
- iii. Ymysg yr ymatebion, roedd agwedd gyffredinol gadarnhaol at symud tuag at economi gylchol ac at y camau gweithredu a awgrymwyd gan Llywodraeth Cymru fel modd o gyflawni'r amcanion. Er bod pob ymateb a digwyddiad wedi tynnu sylw at eu materion unigryw eu hunain, nodwyd ymatebion, safbwyntiau a syniadau cyffredin ar sut y gallai Cymru sicrhau economi gylchol. Rhestrir y rhain isod, gyda'r prif themâu ychwanegol yn cael eu crynhoi yn y graffeg cysylltiedig (Ffigur 0.1).

- Dylai'r strategaeth adlewyrchu'r blaenoriaethau a amlinellir yn y strategaeth gwastraff, a dylai'r defnydd o ddeunyddiau gael eu seilio ar Asesiadau Cylch Bywyd.
- Dylai camau tuag at economi gylchol gael eu gweithredu'n gyson ledled rhanbarthau Cymru ac adrannau Llywodraeth Cymru, a, lle bo'n bosibl ac ymarferol, eu integreiddio â gweithredu ehangach.
- Dylai camau tuag at economi gylchol gael eu hystyried a'u gwreiddio yn holl bolisi Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'u gosod mewn seilos yn y cyfarwyddiaethau unigol.
- Mae gwell mynediad at y seilwaith, addysg, adnoddau a'r canllawiau angenrheidiol, a chymorth penodol at yr economi gylchol, yn holl-bwysig.
- Dylid cynnig cymorth i bob sector – preifat, cyhoeddus a gwirfoddol – addasu eu harferion presennol nad ydynt yn unol â dull economi gylchol, a fyddai'n golygu cymorth i ddatblygu atebion a chynlluniau arloesol.
- Mae angen monitro cyson ac adolygu gweithredoedd, gan gynnwys gwneud defnydd sylweddol o ddata, yn ogystal â thargedau pendant.
- Mae targedau a chanllawiau yn annigonol ar eu pen eu hunain. Lle bo'n angenrheidiol, dylid cyflwyno deddfwriaeth newydd i annog newid a chosbi diffyg cydymffurfio.
- Rhaid i'r strategaeth gynnwys manylion ar sut y bydd y symudiad diwylliannol angenrheidiol tuag at economi gylchol yn cael ei hyrwyddo.

Ffigure 0.1: Penawdau ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu yn ôl thema




1. Cyflwyniad

Ymgynghoriad Mwy nag Ailgylchu

- 1.1 Ym mis Rhagfyr 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lansio'r ymgynghoriad 'Mwy nag Ailgylchu: strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti'.¹ Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn, caiff economi gylchol ei diffinio fel un lle caiff gwastraff ei osgoi a lle cedwir adnoddau mewn defnydd gyhyd â phosibl. Hanfod y strategaeth yw'r amcanion strategol i greu Cymru decach, wyrddach a mwy ffyniannus.
- 1.2 Cafodd yr ymgynghoriad, a redodd tan fis Ebrill 2020 (yn dilyn estyniad yn sgil y pandemig Covid-19), ei rhyddhau'n gynharach yn y cylch polisi na'r hyn sydd arferol, gyda'r nod o sicrhau clywed amrediad eang o safbwyntiau a syniadau dinasyddion (o safbwynt cynulleidfaoedd a lleoliadau). Roedd y ddogfen, a oedd yn cynnwys chwe thema allweddol (Ffigur 1.1) gydag wyth o brif gamau gweithredu a dau ar hugain o gwestiynau, yn canolbwyntio ar wahodd syniadau a chyfraniadau cadarnhaol i ddylanwadu ar bolisi yn hytrach na cheisio cymeradwyaeth neu adwaith i ddeunydd y cytunwyd arno eisoes.
- 1.3 Cafodd yr ymgynghoriad ei gynllunio i alluogi Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau gwybodus ar y strategaeth derfynol (a ddisgwylir ddiwedd 2020), gan wella cyfreithlondeb, tryloywder ac effeithlonrwydd y strategaeth. Drwy gydol y broses ymgynghori, roedd presenoldeb cryf gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd yr ymgynghoriad i Lywodraeth Cymru.

¹ Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, Mwy nag Ailgylchu: strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti, Rhagfyr 2019.

Ffigur 1.1: y chwe thema craidd y canolbwyntir arnynt yn Mwy nag Ailgylchu



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Cyd-destun Cymru

- 1.4 Erbyn 2050, nod Cymru yw byw o fewn adnoddau'r blaned, heb gynhyrchu dim gwastraff na dim allyriadau carbon net. Yn dilyn datgan argyfwng hinsawdd a chydabyddiaeth fod 45% o allyriadau'n dod o nwyddau a chynhyrchion, mae Llywodraeth Cymru yn gweld economi gylchol fel rhywbeth sy'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at gyflawni'r amcanion hyn.
- 1.5 Mae gan Gymru sylfaen gref i adeiladu economi gylchol arni, fel arweinydd byd-eang mewn ailgylchu a strategaethau effeithlonrwydd adnoddau. Cyfunir hyn â hanes o fentrau a arweinir gan gymunedau a dinasyddion megis y sector ailddefnyddio cymunedol, Repair Café Wales, Ail-lenwi Cymru, a chymunedau di-blastig. Cydnabyddir bod symud tuag at economi gylchol yn cynnig cyfleoedd economaidd, yn galluogi cymryd rhan mewn marchnadoedd newydd, datblygu gwydnwch, tanio arloesi, ac yn sicrhau lle Cymru ar flaen y gad mewn

rheoli gwastraff.² O ganlyniad, mae economi gylchol yn cyfateb â dulliau strategol presennol a fframweithiau eraill Cymreig, gan gynnwys:

- Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel³
- Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol⁴
- Polisi Adnoddau Naturiol⁵
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol⁶
- Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd⁷
- Arloesi Cymru⁸
- Cynllun y Trydydd Sector⁹
- Datganiad Polisi Caffael Cymru.¹⁰

² WRAP, Cymru a'r Economi Gylchol.

³ Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel 2019.

⁴ Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Symud Cymru Ymlaen.

⁵ Llywodraeth Cymru, Polisi Adnoddau Naturiol 2017.

⁶ Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

⁷ Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd 2017.

⁸ Llywodraeth Cymru, Arloesi Cymru 2014.

⁹ Llywodraeth Cymru, Cynllun y Trydydd Sector 2014.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Datganiad Polisi Caffael Cymru, 2015.

2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.1 Y dadansoddiad o ddwy elfen yr ymgynghoriad – ar-lein a digwyddiadau wyneb yn wyneb – yw sail yr adroddiad hwn.


Digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb

- 2.2 Cynhaliwyd rhaglen lawn o tua deugain o ddigwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys cydbwysedd rhwng sesiynau gwahoddiadau agored traddodiadol, digwyddiadau wedi eu haddasu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, a digwyddiad yn Llundain ar gyfer sefydliadau proffesiynol, cymdeithasau masnach, ac arbenigwyr ac asiantaethau economi gylchol, gan sicrhau felly bod amrywiaeth o safbwyntiau a syniadau'n cael eu casglu. Rhoddir dadansoddiad cryno o bob grŵp o randdeiliaid yn Atodiad A.

- 2.3 Cafodd pedwar o ddigwyddiadau ymgynghori â'r cyhoedd eu hwyluso gan Miller Research, wedi eu lledaenu'n ddaearyddol er mwyn sicrhau cynnwys y trawstoriad ehangach o ddinasyddion a rhanddeiliaid ledled Cymru a'r tu hwnt. Yn anffodus, cafodd y pumed digwyddiad a drefnwyd yng nghanolbarth Cymru, ym Machynlleth, ei ohirio yn sgil y pandemig Covid-19. Felly, roedd y data a gasglwyd o'r digwyddiadau yn cynrychioli:

- Gogledd-Orllewin Cymru: Bangor a Môn
- De-Orllewin Cymru: Arberth a Hwlfordd
- De-Ddwyrain Cymru: Cas-gwent
- Gogledd-Ddwyrain Cymru: Yr Wyddgrug.

Ffigur 2.1. Lleoliad digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd ac un y bwriadwyd ei gynnal yng Nghymru.



Ymgynghori ar-lein

- 2.4 Roedd proses ymgynghori fwy ffurfiol yn gwahodd ymatebion trwy lwyfan arolygon ar y we, e-bost ac fel copi caled.
- 2.5 Derbyniwyd cyfanswm o 220 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein. Yn sgil y pandemig Covid-19, cafodd y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer cyflwyno ymatebion ei ymestyn. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai'r pandemig ddal i fod wedi effeithio ar y nifer o ymatebion a dderbyniwyd.
- 2.6 Roedd yr ymatebion yn cynrychioli unigolion (81 o ymatebion) a 125 o fudiadau neu sefydliadau amrywiol gan gynnwys grwpiau

dinasyddion, cymunedau, grwpiau technegol a'r sector cyhoeddus (rhestr lawn yn Atodiad B). Roedd amryw o ymatebion – yn enwedig ymatebion ymgyrchoedd – yn cael eu hailadrodd felly cawsant eu dadansoddi unwaith yn unig er mwyn osgoi dyblygu wrth ddadansoddi.

- 2.7 Roedd rhai ymatebwyr a gyflwynodd ymateb e-bost na ddilynodd yr holiadur yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r safbwyntiau hyn wedi cael eu dadansoddi a'u cynnwys yn yr adroddiad hwn lle bo hynny'n addas.

Dull dadansoddi ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.8 Cafodd yr holl ymatebion eu gasglu a'u dadansoddi gan Miller Research, yn ôl cwestiwn a thema gyfatebol, er mwyn dangos y barnau mwyaf cyffredin a rhai gwahanol iddynt yn yr ymgynghoriad.
- 2.9 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o ymatebion o'r ymgynghoriadau wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae wedi'i strwythuro yn ôl canfyddiadau sy'n ymwneud â phob un o chwe thema'r ymgynghoriad (Ffigur 1.1.). Mae'r adroddiad yn rhoi sylw penodol i ddarparu awgrymiadau ychwanegol gan yr ymatebwyr i ddylanwadu ar gamau gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru.

3. Canfyddiadau

- 3.1 Er i bob ymateb ar-lein a digwyddiadau ymgynghori godi materion gwahanol, roedd elfennau a oedd yn gyffredin o safbwynt y materion a nodwyd. Caiff y canfyddiadau allweddol eu crynhoi isod yn ôl chwe thema'r ymgynghoriad a'r gweithredoedd sy'n gysylltiedig â hwy (gyda chrynodeb infograffeg yn y Crynodeb, Ffigur 0.1). Er mwyn tryloywder, rhoddir penawdau allweddol o bob un o'r digwyddiadau fel Atodiad (C-F).

Argraffiadau cyffredinol

- 3.2 Roedd agwedd gyffredinol gadarnhaol tuag at y themâu a'r camau gweithredu a gynigir yn ymgynghoriad 'Mwy nag Ailgylchu' i symud Cymru tuag at economi gylchol.
- 3.3 O fewn yr ymatebion ar-lein, y farn oedd y gellid hybu'r symudiad tuag at y strategaeth gyda'r 'adferiad gwyrdd' o'r Covid-19 y gobeithir amdano, a'r naratif 'ailadeiladu'n well' sy'n dechrau dod i'r amlwg, gan elwa ar y pwyslais cyhoeddus cynyddol ar ddatblygu gwydnwch, yr economi a chadwyni cyflenwi lleol yng Nghymru.

"Mae potensial sylweddol i wneud defnydd o'r argyfwng coronafeirws presennol i helpu pobl a chymunedau i ganolbwyntio ar yr hyn a ddefnyddiwn ac a dreuliwn a sut rydym yn rhyngweithio â'n hamgylchedd."

- 3.4 Er mwyn i'r strategaeth lwyddo, elfen allweddol a godwyd yn y broses ymgynghori oedd ei dibyniaeth ar newid diwylliant ledled y wlad a symudiad i ffwrdd oddi wrth gymdeithas brynwriaethol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn ansicr ynghylch sut y gallai Cymru ar ei phen ei hun greu symudiad o'r fath tuag at fodel economaidd gwahanol, heb drawsnewid ledled y Deyrnas Unedig neu'n fyd-eang.
- 3.5 Wrth nodi'r angen am newid trawsffurfiannol, roedd ymatebwyr yn tynnu sylw hefyd at ddibyniaeth y strategaeth ar bolisiau newydd i ystyried canlyniadau economi gylchol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd

ymateb trawsadrannol er mwyn rhwystro meddylfryd 'seilos' ynglŷn â'r broses. Roedd busnesau amlwladol yn galw am gysondeb polisïau y tu hwnt i Gymru pan fo hyn yn bosibl, tra bod ymatebwyr eraill yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd rheolaeth o gadwyni cyflenwi domestig.

3.6 Roedd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cyffredinol i'r strategaeth yn cynnwys:

- Sicrhau bod y strategaeth derfynol yn radical ac uchelgeisiol. Nid dim ond 'symud tuag at' economi gylchol ddylai'r uchelgais fod, ond *creu* economi gylchol, gyda mwy o frys na tharged o 2050.
- Mwy o bwyslais ar yr hierarchaeth gwastraff. Roedd pryder mai ailgylchu (neu lawrgylchu, yn fwy penodol) oedd canolbwynt y strategaeth, cam gweithredu nad yw'n adlewyrchu'n ddigonol egwyddorion economi gylchol.
- Cynyddu natur ddiffiniol, a'r gallu i fesur, targedau arfaethedig. Roedd pryder bod y strategaeth yn brin o fanylder ar union gynnwys a chwmpas cynlluniau, er enghraifft, sut fydd y cynlluniau arfaethedig yn cyd-blethu â ffrydiau gwaith presennol, yn ogystal â sut y bydd cynlluniau'n cael eu cyflawni.
- Ystyried sut y gall y strategaeth gysylltu â pholisïau presennol, pholisïau'r dyfodol, yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig – gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cysylltiadau cryfach rhwng y strategaeth a gweithredoedd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a lleihau allyriadau carbon.
- Mwy o eglurder ac ystyriaeth sut y bydd y strategaeth yn effeithio ar fusnesau trawsffiniol a nwyddau a fewnforir.
- Cynllun cliriach ar sut y gall y strategaeth lywio newid mewn agweddau ac ymddygiad defnyddwyr.

Adeiladu ar ein record ailgylchu



Arwain y byd o ran ailgylchu: Byddwn yn gweithio i sicrhau'r cyfraddau uchaf yn y byd o ran ailgylchu gwastraff cartrefi, gan weithio gyda llywodraeth leol a thrawsnewid sut y caiff gwastraff masnachol, a gwastraff o'r byd diwydiannol a'r byd adeiladu eu hailgylchu.

Penawdau'r thema

- *Mae'n bwysig cael gwasanaeth casglu ailgylchu sy'n safonol a chyson.*
- *Mae angen ehangu'r amrediad o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu.*
- *Rhaid i ailgylchu fod yn hawdd, rhaid iddo gael cefnogaeth a bod o fewn cyrraedd safleoedd domestig ac annomestig.*
- *Mae angen cysoni'r pwyslais ar ailgylchu ag amcanion ehangach economi gylchol sy'n rhoi blaenoriaeth ar barhau i ddefnyddio eitemau.*
- *Mae angen i fuddsoddiad mewn seilwaith ailgylchu gefnogi amcanion mwy hirdymor fel ailddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu.*
- *Mae angen cynyddu gwerth deunydd eildro a hyder y farchnad mewn deunyddiau y gellir eu hailgylchu.*
- *Mae'n hanfodol fod y dull ailgylchu'n cael ei fonitro'n helaeth a'i adolygu'n barhaus.*

Dadansoddiad

- 3.7 Yn gyffredinol, roedd cydnabyddiaeth fod y cynnydd a wnaed mewn ailgylchu yng Nghymru hyd yma yn haeddu clod, ac roedd agwedd gyffredinol gadarnhaol tuag at gynlluniau arfaethedig Llywodraeth Cymru i wneud 'mwy nag ailgylchu'.

- 3.8 O fewn y thema hon, codwyd dau fater allweddol yn gyson, yn gyntaf ynghylch gweithredu targedau awdurdodau lleol ac, yn ail, y pwyslais agored ar y penawd ‘arwain y byd o ran ailgylchu’. Roedd rhai ymatebwyr yn gweld canolbwyntio ar dargedau ailgylchu fel rhywbeth a allai fod yn anghydnaws ag amcanion economi gylchol. Cyfeiriwyd yn helaeth gan ymatebwyr at egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff ac at bryderon bod blaenoriaeth ar dargedau ailgylchu uchel yn ymestyniad o economi linellol, gan dynnu sylw oddi wrth y targedau atal, atgyweirio ac ailddefnyddio y dylid canolbwyntio arnynt wrth symud tuag at economi gylchol. Yn sgil record Cymru ar ailgylchu sydd eisoes yn gryf, roedd yr uchelgais i arwain yn byd yn cael ei weld fel rhywbeth diangen gan rai yn yr ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.

“Mae angen ymdrin yn ofalus ag ailgylchu fel mesur economi gylchol gan y gall arwain at ddefnydd uwch o ynni ar gyfer ailbroesu deunyddiau ac at ansawdd is y deunyddiau hynny, o gymharu â mesurau economi gylchol eraill. Os yw ansawdd deunydd yn diraddio yn ystod ei ailgylchu, gallai fod yn gywirach galw’r mesur hwn yn ‘lawrgylchu’ yn hytrach nag ‘ailgylchu’. Dylid ystyried lawrgylchu fel y dewis olaf ymysg mesurau economi gylchol ac mae angen ei leihau fel arfer gwastraffus.”

- 3.9 Roedd cefnogaeth gyson i adolygiad y Glasbriant Casgliadau gyda’r farn gyffredinol yn pwysleisio’r angen am safonau cyffredin fel sail i ddulliau rhanbarthol – a fyddai’n rhoi lle i wahaniaethau rhanbarthol fel bo’r angen. Roedd cysondeb mewn ailgylchu yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig er mwyn lleihau dryswch ymysg defnyddwyr, cynhyrchwyr a’r rheini sy’n ymweld o ardaloedd eraill, yn enwedig ymysg awdurdodau gyda niferoedd mawr o ymwelwyr (ee Sir Benfro a Gwynedd). Yn ogystal, gallai manteision effeithlonrwydd maint, wedi ei gydgyssylltu ymysg rhanbarthau, helpu gyda datblygu seilwaith a chaffael adnoddau. Roedd awgrymiadau i ategu’r Glasbriant Casgliadau yn cynnwys:

- 💡 Adnabod yr arferion gorau mewn casgliadau awdurdodau lleol i'w gweithredu ledled Cymru.
- 💡 Gweithredu safonau ailgylchu cyffredin fel sail i ddull rhanbarthol.
- 💡 Cynyddu cysondeb mewn pecynnu, labelu a chyfathrebu rhwng busnesau, safleoedd domestig a gwasanaethau adeiladu.
- 💡 Sicrhau mynediad gan awdurdodau lleol i'r un gweithfeydd prosesu ailgylchu.
- 💡 Sefydlu corff strwythuredig / canolbwynt rhanbarthol / rhwydwaith cydgysylltiedig i helpu cysondeb ac effeithlonrwydd, a sefydlu marchnadoedd newydd.
- 💡 Defnyddio dulliau casglu dibynadwy, eco-gyfeillgar ac unfurf o garreg y drws.

3.10 Roedd cefnogaeth i ehangu'r amrediad o ddeunyddiau a gesglir (ee clytiau babanod, carped, cartonau diodydd) a datblygu cysondeb rhwng ailgylchu domestig ac annomestig. Fodd bynnag, roedd pryder bod y strategaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar ffrydiau gwastraff trefol a oedd yn cael eu hystyried fel cyfran fach o wastraff yng Nghymru. Roedd awgrymiadau o ffrydiau eraill yn cynnwys:

- 💡 Deunydd organig a gwastraff gwyrdd – deunyddiau ac iddynt gyfleoedd economi gylchol (cynhyrchion carbon, treuliant aerobig, adfywio pridd etc).
- 💡 Gwastraff amaethyddol.

3.11 Roedd cytundeb clir fod cynlluniau a seilwaith sy'n galluogi didoli deunyddiau'n effeithlon yn hanfodol ar gyfer economi gylchol. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth barn ar lle dylai didoli ddigwydd; naill ai gyda'r defnyddiwr, neu mewn cyfleusterau didoli cynradd neu eilaidd.

3.12 Er mwyn cynyddu cymorth ailgylchu i ddinasyddion, roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am fwy o hygyrchedd ac addysg ailgylchu, gan gynnwys:

- 💡 Gwellu mynediad i ganolfannau ailgylchu – o ran oriau agor a chymhwysedd daearyddol (gan gynnwys ar draws ffiniau awdurdodau).

- 💡 Cynyddu seilwaith ailgylchu mewn tai, cymdogaethau a threfi. Er enghraifft, unedau casglu cymunedol symudol, canolbwyntiau ailgylchu mewn trefi a biniau ailgylchu ar strydoedd neu mewn parciau.
- 💡 Cynyddu gwybodaeth (trwy labelu a hysbysebu) ynghylch pa ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu. Mae hyn yn neilltuol o angenrheidiol mewn safleoedd gyda phreswylwyr tymor byr fel myfyrwyr (Bangor), twristiaid (Sir Benfro ac Ynys Môn) a phobl sy'n rhentu (ledled Cymru). Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r landlord gael ei ddal yn gyfrifol am ailgylchu yn yr achosion hyn.

3.13 Roedd ymatebwyr yn cytuno â'r angen am fwy o gymorth i fusnesau (yn enwedig busnesau bach a chanolig), i'w helpu i ailgylchu, a'u cynorthwyo i arbed a gwneud arian ar y symudiad at economi fwy cylchol. Roedd yr awgrymiadau am gymorth busnes yn cynnwys:

- 💡 Cael gwared ar ffioedd giât am ailgylchu i fusnesau.
- 💡 Cynyddu'r gost i fusnesau anfon eu gwastraff i dirlenwi.
- 💡 Gweithredu tystysgrif ailgylchu i fusnesau i alluogi cydnabod arferion da.

3.14 Cydnabuwyd y byddai cynnydd mewn deunyddiau a gesglir yn gofyn am gynnydd cyfatebol mewn seilwaith ac adnoddau ar gyfer prosesu. Mynegwyd nodyn o rybudd hefyd y gallai gor-fuddsoddi mewn seilwaith ailgylchu greu dibyniaeth wrthnysig ar ailgylchu, pryd y dylai dull economi gylchol yn lle hynny arwain at leihad llym mewn gallu ailgylchu yn y dyfodol unwaith mae'r egwyddorion yn cydio. Er hynny, dywedwyd y byddai mwy o seilwaith yn golygu'r angen am y canlynol:

- 💡 Helpu Awdurdodau Lleol i gynyddu seilwaith a'i wneud yn fwy hygyrch.
- 💡 Gweithredu gweithfeydd ailgylchu cemegol i ymdrin â deunyddiau anodd eu hailgylchu, yn enwedig mathau o wastraff plastig.

“Ni ellir cefnogi'r cynnig am dargedau isafswm statudol uwch ar awdurdodau lleol ar ôl 2025 ond lle bo sicrwydd hirdymor yn y marchnadoedd, a seilwaith didoli ac ailbrosesu addas ar gael ar gyfer yr amrywiol ffrydiau ailgylchu.”

3.15 O ran yr angen am well seilwaith, roedd nifer o ymatebwyr (yn enwedig o fusnesau) yn pwysleisio pwysigrwydd cadw gwerth mewn deunydd eildro trwy broses ailgylchu o ansawdd uchel, i helpu cadw deunyddiau wedi'u hailgylchu a hyder y farchnad ynddynt. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- 💡 Cynyddu gwerth ac ansawdd deunydd eildro.
- 💡 Cynhyrchu deunydd eildro o ansawdd safon bwyd.
- 💡 Cynhyrchu deunydd eildro o ansawdd safon gofal iechyd.

3.16 O fewn yr ymatebion ar-lein, roedd galwad gref am fwy o fonitro ac adolygu ac addasu parhaus o'r dull ailgylchu, yn ogystal â sylweddoli gwerth data a'r angen i'w gasglu. Yn benodol:

- 💡 Dadansoddi'r deunydd sydd yn y farchnad a llif deunyddiau ar hyn o bryd i lywio gweithgarwch yn y dyfodol, creu gwell tryloywder a sail dros orfodi.

Rhoi cymorth i atal gwastraff ac ailddefnyddio



Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd: Byddwn ar flaen y gad o ran gwaredu gwastraff bwyd y gellir ei osgoi drwy edrych ar y gadwyn gyflenwi gyfan a gweithio gyda busnesau o'r fferm i'r fforc i leihau gwastraff a sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithlon â phosibl.

Blaenoriaethu prynu pren, a chynnyrch sydd wedi'i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu: Byddwn yn blaenoriaethu defnyddio pren a chynnwys sydd wedi'i ailgylchu yn ogystal â blaenoriaethu cynnwys a ailddefnyddiwyd ac a ailweithgynhyrchwyd ymhlith y nwyddau y mae'r sector cyhoeddus yn eu caffael.

Penawdau'r thema

- *Mae atal ac ailddefnyddio yn elfennau allweddol wrth gyflawni economi gylchol.*
- *I sicrhau atal ac ailddefnyddio, mae angen i bolisi yn y dyfodol greu newid economaidd a diwylliannol.*
- *Mae gweithio gyda chymunedau a mentrau cymdeithasol yn hanfodol er mwyn helpu twf y sectorau ailddefnyddio ac atgyweirio.*
- *Mae ar fusnesau angen cyngor ar eco-ddylunio cynhyrchion.*
- *Mae addysg ac ennyn diddordeb mewn cysyniadau economi gylchol yn allweddol.*
- *Mae angen mynd i'r afael â gwastraff bwyd a chydabod gweddillion fel adnodd.*
- *Dylai pob sector – preifat, cyhoeddus a gwirfoddol – gyfrannu offer sydd dros ben.*

Dadansoddiad

- 3.17 Roedd cefnogaeth lethol i'r nodau a'r amcanion a amlinellwyd yn y thema hon, gan ymatebwyr ar-lein ac wyneb yn wyneb. Roedd atal ac ailddefnyddio yn cael eu hystyried fel blaenoriaeth dros ailgylchu, fel elfennau allweddol i sicrhau economi gylchol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr hefyd yn pwysleisio graddfa'r newid diwylliannol ac economaidd oedd yn ofynnol yn y thema hon er mwyn sefydlu economi gylchol yn llwyddiannus. Yn ddiwylliannol, roedd rhanddeiliaid yn pwysleisio'r angen am newid mewn arferion cynhyrchu, patrymau defnyddio, ac ymddygiad busnesau a defnyddwyr. O ran symudiad economaidd, roedd rhanddeiliaid yn crybwyll yr angen am aildrefnu marchnadoedd a mynediad at gyllid er mwyn cymell busnesau i fabwysiadu mesurau lleihau gwastraff. Roedd yr angen am ymrwymïadau cryfach yn cael ei nodi'n barhaus yn y thema hon, yn hytrach na 'rhestr o ddymuniadau'.
- 3.18 Roedd llawer o ymatebwyr yn amlinellu'r defnydd strategol posibl o gynlluniau ailddefnyddio sydd eisoes ar waith gan gymunedau a mentrau cymdeithasol. Crybwyllwyd enghreifftiau sy'n bod eisoes o gaffis atgyweirio, lleoedd ail-wneud, llyfrgell pethau (ee Benthg yng Nghaerdydd) a siediau dynion. Fodd bynnag, pwysleisiwyd fod cynlluniau o'r fath yn gyfyngedig o ran capasiti ar hyn o bryd a bod angen cydgysylltu a chymorth sylweddol er mwyn cael y gweithgarwch cymunedol a'r gwasanaethau sy'n ofynnol ar gyfer dull economi gylchol. Er mwyn hybu twf y sector ymhellach, roedd syniadau'n cynnwys:
-  Deddfu i fentrau cymdeithasol dderbyn yr arbedion maent wedi eu galluogi i lywodraeth leol. Roedd hyn yn rhan o gynnig â galw mawr iddo i osod cymunedau wrth wraidd economi gylchol a datblygu a chynnal cysylltiadau rhwng y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Mae cynnig o'r fath hefyd yn tynnu'r cyfrifoldeb cyflawni oddi wrth Awdurdodau Lleol, a all fod yn brin o'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol.

- 💡 Cynyddu cymorth ariannol i'r sector i gynyddu gweithrediadau mewn ardaloedd gwledig.
- 💡 Datrys anawsterau sy'n rhwystro ailwerthu cynhyrchion (megis diogelwch tân).
- 💡 Ymgorffori mentrau mewn canolfannau ailgylchu gwastraff cartrefi sy'n bod eisoes.
- 💡 Lleoli mentrau economi gylchol mewn lleoedd prysur (megis llyfrgell pethau yn agos at archfarchnadoedd).

3.19 Roedd cred gref yn yr holl ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus fod ar fusnesau a'r gadwyn gyflenwi angen mwy o gyngor, yn enwedig ynghylch eco-ddylunio cynhyrchion, er mwyn helpu atal gwastraff ac ailddefnyddio. Roedd y cynigion yn cynnwys:

- 💡 Hyrwyddo'r hawl i atgyweirio¹¹, annog parhauster a chynyddu mynediad at gydrannau modiwlaid mewn cynhyrchion.
- 💡 Lleihau cost atgyweirio a chynyddu cost deunyddiau newydd – sy'n ddibynnol ar addasu modelau busnes oddi wrth werthiant cynhyrchion newydd; o bosibl tuag at fodel "newyddau fel gwasanaeth".

3.20 O ran hyrwyddo ailddefnyddio, roedd ymatebwyr yn amau'r canolbwyntio ar y sector cyhoeddus am gyfraniadau. Er bod y pwyslais yn cael ei weld fel man cychwyn, dywedwyd bod angen cwmpasu'r sectorau preifat a gorfodol yn ogystal er mwyn cael economi gylchol lwyddiannus. Er hynny, nodwyd arferion da o fewn y sector cyrff a gyllidir yn gyhoeddus – megis yr UniGreenScheme (cynllun ailwerthu asedau i brifysgolion).

3.21 Roedd ymatebwyr wyneb yn wyneb ac ar-lein yn unfrydol yn eu cred fod addysg ac ennyn diddordeb yn allweddol er mwyn sicrhau economi gylchol, i helpu'r symudiad diwylliannol sydd ei angen i gyfateb unrhyw drawsnewid mewn marchnadoedd. Pwysleisiwyd dro ar ôl tro y dylid gwreiddio gwerthoedd economi gylchol mewn

¹¹ <https://repair.eu/>

ysgolion, yn fwy na dim ond eu hymgorffori yn y cwricwlwm. Yr argymhellion oedd:

- 💡 Ehangu ar yr eco ysgolion a'r Fframwaith Ysgolion Cynaliadwy.
- 💡 Gwneud cysyniadau economi gylchol (mwy nag ailgylchu) yn agwedd orfodol o gwricwlwm Cymru.
- 💡 Darparu adnoddau mewn ysgolion i addysgu mewn atal gwastraff, atgyweirio, aildddefnyddio ac ailgylchu gan gynnwys compostio, tyfu bwyd a threulwyr anaerobig.
- 💡 Addysgu oedolion (yn ogystal â phlant) mewn cysyniadau economi gylchol.
- 💡 Datblygu sgiliau sy'n absennol ar hyn o bryd ac sy'n angenrheidiol ar gyfer aildddefnyddio ac atgyweirio trwy sefydlu cyrsiau hyfforddi a diplomâu (ee prentisiaethau gwyrdd).
- 💡 Cydweithio â sefydliadau presennol y trydydd sector a'r sector cyhoeddus (ee Cadwch Gymru'n Daclus, Repair Café Cymru, Cyfeillion y Ddaear).

"Rhoi i bob plentyn ym mhob ysgol yng Nghymru brofiad o ailddylunio nwyddau a gwasanaethau ar gyfer yr economi o 3 oed fel y gallant adeiladu'r gallu meddyliol a thechnegol i ddatrys yr holl svstem a dylanwadu ar rieni."

3.22 Roedd consensws cyffredinol fod gwastraff bwyd yn broblem sylweddol a bod cyfran uchel yn diweddu fel gwastraff gweddilliol. Trafodwyd gwastraff bwyd o safbwynt lleihau ei swm a gwneud defnydd o unrhyw gynhyrchion gwastraff. Gwnaed yr awgrymiadau canlynol:

- 💡 Cynyddu pwysau ar archfarchnadoedd i gymryd y camau canlynol:
 - Lleihau cynigion swmp-brynu
 - Lleihau pecynnau
 - Cynnig meintiau dogn sengl a bwyd rhydd
 - Rhoi labelau ar sut i leihau gwastraff bwyd ac ailgylchu pecynnau.

- 💡 Cynyddu addysg i ddefnyddwyr ar wastraff bwyd angenrheidiol/dianghenraid a rhoi gwybodaeth ar sut i storio a defnyddio bwyd yn effeithlon (ee ryseitiau 'defnyddio'r gweddill') trwy ymgyrchoedd a mentrau cenedlaethol a lleol (ee cymell y defnydd o gadis bwyd). Cafodd gwaith sefydliadau fel WRAP eu crybwyll yn rheolaidd fel enghreifftiau, gan gynnwys Map Targedu, Mesur, Gweithredu WRAP ac IGD fel ffynhonell o weithredu i'w argymell.
- 💡 Cynyddu marchnadoedd am fwyd tymhorol a lleol ac edrych ar ffyrdd o gymell hyn.
- 💡 Ailsefydlu cnydau a dyfid yn y gorffennol yng Nghymru.
- 💡 Rhoi cymorth ariannol i'r rheini sy'n gwerthu bwyd i sicrhau bod symiau addas yn cael eu cynhyrchu.
- 💡 Hyrwyddo'r defnydd o apiau digidol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
- 💡 Ailddosbarthu bwyd sydd dros ben ac ysgogi gwaith grwpiau gweithredu cymunedol, megis rhewgelloedd cymunedol i fynd i'r afael â gwastraff bwyd a lliniaru tlodi bwyd.
- 💡 Gosod rhwydweithiau o gompostwyr lleol.
- 💡 Achub gwerth o wastraff bwyd (na ellir ei ailddosbarthu) ar gyfer cynhyrchu ynni (treulwyr anaerobig a bio-nwy) ac adfywio pridd.

Llywio arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau



Blaenoriaethu prynu pren, a chynnyrch sydd wedi'i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu: Byddwn yn blaenoriaethu defnyddio pren a chynnwys sydd wedi'i ailgylchu yn ogystal â blaenoriaethu cynnwys a aildefnyddiwyd ac a ailweithgynhyrchwyd ymhlith y nwyddau y mae'r sector cyhoeddus yn eu caffael.

Penawdau'r thema

- *Mae angen symbylu arloesi er mwyn datblygu cynhyrchion addas i economi gylchol, creu economi gref a chynyddu cyfrifoldeb cynhyrchwyr.*
- *Mae angen ystyried a datrys gofynion cadwyni cyflenwi busnesau.*
- *Dylai'r pwyslais fod ar hyrwyddo'r deunyddiau mwyaf addas i'r diben, ar sail Asesiad Cylch Bywyd.*
- *Dylai fod gwybodaeth a deddfwriaeth dryloyw ar ddeunyddiau er mwyn sicrhau y gall defnyddwyr wneud penderfyniadau gwybodus.*

Dadansoddiad

- 3.23 Ar draws yr holl ymgynghoriad, roedd ymatebwyr yn cytuno bod y defnydd cynaliadwy o ddeunyddiau yn angenrheidiol wrth symud tuag at economi gylchol ac yn pwysleisio rôl arloesi wrth helpu hyn.

“Os ydym am sicrhau economi gylchol, byddai'n fwy defnyddiol meddwl am gychwyn y gadwyn gyflenwi, a gweithio oddi yno. Ychydig iawn y byddai strategaeth economi gylchol yn ei grybwyll am wastraff ac ailgylchu; os yw'n gwneud hynny, mae'n trin y symptom, yn hytrach na'r broblem waelodol, sef y cynllunio.”

- 3.24 Er bod ymatebwyr yn cytuno ar y cyfan ar y deunyddiau y canolbwyntiwyd arnynt yn y strategaeth, codwyd rhai pryderon. Yn

gyntaf, y farn oedd bod plastig ‘diangen’ yn oddrychol iawn ac y dylid osgoi gor-bardduo’r deunydd. Yn ail, y teimlad oedd bod bioblastigau yn fater dadleuol. Er bod rhai yn cytuno â chynyddu rôl bioblastigau fel deunydd o fewn economi gylchol, roedd eraill yn bryderus ynghylch diffyg seilwaith compostio a’r tir a’r cemegau a oedd eu hangen i dyfu’r cnydau a fyddai’n cael eu prosesu’n fioblastig. Yn drydydd, er bod y defnydd o bren yn cael ei ystyried yn fwy cynaliadwy ac yn unol â strategaeth Coetiroedd i Gymru¹², codwyd pryder ynghylch ei darddiad, lleoliad planhigfeydd ac ôl-troed dŵr uchel. Felly, roedd awgrymiadau’n cynnwys:

- 💡 Cynnal Asesiad Cylch Bywyd ar bob deunydd i sicrhau bod y deunydd mwyaf addas i’r diben yn cael ei ddefnyddio (gan ystyried ôl-troed carbon, parhauster a dewisiadau o ran trin ar ddiwedd bywyd).
- 💡 Cyfleu ôl-troed carbon deunydd trwy labelu ac addysgu defnyddwyr ar yr hyn mae’n ei olygu – galluogi defnyddwyr i wneud y penderfyniad mwyaf amgylcheddol gyfeillgar a gwybodus wrth brynu.
- 💡 Gwella’r wybodaeth a roddir ar rôl pren yn yr economi gylchol.
- 💡 Rhoi diffiniadau cliriach o blastigau a bioblastigau.
- 💡 Cynnwys deunyddiau eraill i ganolbwyntio arnynt – yn enwedig y rheini a all achosi problemau yn y dyfodol – yn seiliedig ar ddata (yn hytrach nag ar farn y cyhoedd). Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys tecstilau, batris, deunyddiau adeiladu, deunyddiau a fwyngloddor, pecynnau, cydrannau seilwaith ynni adnewyddadwy a deunyddiau gwenwynig.
- 💡 Cyfleu effaith gyfansymiol deunyddiau, yn enwedig yn wyneb y cynnydd a ragwelwir mewn galw erbyn 2060. Cynyddu deddfwriaeth a chyfyngu pa ddeunyddiau (gan gynnwys mathau o blastig) y gellir eu defnyddio wrth gynhyrchu.

¹² Llywodraeth Cymru, Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed, 2018

“Rydym yn bryderus y gall fod na fydd defnyddio bioblastigau ond yn disodli un cynnyrch anghynaliadwy ag un arall.”

“Mae’n hanfodol cynnal Dadansoddiad Cylch Bywyd fesul achos wrth gyflwyno mesurau economi gylchol fel ailddefnyddio, er mwyn osgoi effeithiau amgylcheddol nas bwriadwyd.”

- 3.25 Codwyd pryder gan ymatebwyr ynghylch sut y byddai problemau gyda gofynion cadwyni cyflenwi busnesau yn cael eu datrys. Felly, roedd awgrymiadau’n cynnwys:

- 💡 Sefydlu marchnadoedd i ddeunyddiau eilaidd.
- 💡 Darparu cymorth Llywodraeth (ariannol a gwybodaeth) i fusnesau.

“Mae’r economi gylchol yn golygu trawsnewid. Ac mae wedi’i fwriadu i fod yn drawsnewid llym sy’n tarfu ar brydiau, mae wedi’i fwriadu i adael cwmnïau sy’n gwneud pethau fel o’r blaen fynd allan o fusnes.”

- 3.26 Barn ymatebwyr oedd y byddai datblygu arloesi yn gwella cynhyrchion cynaliadwy, yn cyfrannu at economi gryfach yng Nghymru a chynyddu cyfrifoldeb cynhyrchwyr, gan leihau’r gwastraff a gynhyrchir. Fodd bynnag, er y tynnwyd sylw at werth arloesi, pwysleisiwyd hefyd fod angen i hynny gael ei gyfiawnhau a’i dargedu at greu economi gylchol, gan mai lleihau treuliant ddylai’r nod cyffredinol fod o hyd. Awgrymwyd meysydd i ganolbwyntio arloesi ynddynt fel:

- 💡 Gwella datblygiad pecynnau biogddiraddadwy.
- 💡 Canolbwyntio ar ddeunyddiau sy’n tynnu plastig o ffrydiau gwastraff (ee hemp, pren, deunyddiau eildro).
- 💡 Annog dylunio seiliedig ar y gallu i ailgylchu, parhauster a dewisiadau triniaeth ar ddiwedd bywyd.
- 💡 Defnyddio cynhyrchion arloesol i ddatblygu brand economi gylchol newydd – Ailgylchwyd/Ail-wnaed yng Nghymru.

- 💡 Cynyddu datblygiad modelau arloesol, rhithiol (fel apiau) nad ydynt yn defnyddio ond y mymryn lleiaf o ddeunyddiau ffisegol.

3.27 I symbylu arloesi, roedd ymatebwyr yn awgrymu:

- 💡 Symbylu arloesi trwy gystadlaethau cenedlaethol a chyllid cychwyn busnesau i raddedigion.
- 💡 Ystyried sut y cefnogir arloesi a pha rwystrau sy'n atal cynigion arloesol rhag cael eu gweithredu.

“Hoffem weld Llywodraeth Cymru’n gweithio gyda sefydliadau addysgol, y sectorau preifat a chyhoeddus a chyrff anllywodraethol i sefydlu cystadleuaeth newydd, Datrys Atebion Gwastraff (Solving Waste Solutions – SWS) i bobl a busnesau yng Nghymru feddwl am atebion gwastraff ... Byddai’r enillydd(enillwyr) wedyn yn gweithio gyda phrifysgolion a busnesau Cymreig ar gynllun sbarduno i wireddu’r syniadau hyn. Yn ogystal â helpu symbylu diddordeb yn y problemau a’r atebion, gallai hefyd helpu cychwyn busnesau newydd yng Nghymru ac efallai hyd yn oed gynnig atebion ehangach i wledydd eraill ledled y byd.”

Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth



Cael gwared ar blastig untro yn raddol: Byddwn yn gwneud Cymru'r wlad gyntaf i beidio ag anfon plastig i safleoedd tirlenwi. Byddwn yn bwrw ati gyda diwygiadau pellgyrhaeddol gan gynnwys cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer deunydd pacio, Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, a gosod gwaharddiadau neu gyfyngiadau i gael gwared yn raddol ar y defnydd o blastig untro diangen sy'n aml yn cael ei daflu'n sbwriel.

Ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff: Byddwn yn ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff yng Nghymru, gan sicrhau nad ydym yn allforio gwastraff i fod yn broblem yn rhywle arall. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â rhannau eraill o'r byd i'w helpu i fynd i'r afael â'u problemau gwastraff.

Penawdau'r thema

- *Mae gan Lywodraeth Cymru rôl arweiniol bwysig wrth bontio Cymru i economi gylchol.*
- *Mae gwella effeithlonrwydd caffael adnoddau o fewn y sector cyhoeddus yn gam cyntaf cadarnhaol tuag at egwyddorion economi gylchol.*
- *Mae Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn allweddol er mwyn hyrwyddo newidiadau mwy cyfrifol ar lefel dylunio.*
- *Fel cynhyrchydd cynradd swm mawr o wastraff, mae'n hanfodol canolbwyntio ar effeithlonrwydd adnoddau yn y sector adeiladu.*
- *Bydd cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) a'i effeithiolrwydd yng nghyd-destun cenedl sydd eisoes yn ailgylchu'n helaeth yn gofyn am ddylunio gofalus.*

- *Dylai gweithredu deddfwriaeth ar ddeunyddiau fod yn seiliedig ar Ddadansoddiad Cylch Bywyd a dylai ddigwydd ar lefel y Deyrnas Unedig.*
- *Mae llosgi yn anghydnaws ag economi gylchol yn yr hirdymor. Felly, dylai gweithredu fynd y tu hwnt i dreth llosgi at waharddiad llosgi.*

Dadansoddiad

- 3.28 Roedd yr ymatebwyr yn barod i dderbyn y defnydd o ysgogiadau'r Llywodraeth, gan gredu mai gweithredu ar y cyd ar draws Llywodraeth oedd yr hyn a allai gael yr effaith mwyaf.
- 3.29 Y farn oedd bod llwyddiant y strategaeth yn ddibynnol ar ddigon o ewyllys ac arweiniad gwleidyddol i roi'r camau gweithredu ar waith. Felly, roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol fod gwella effeithlonrwydd caffael adnoddau o fewn y sector cyhoeddus yn faes blaenoriaeth. Y farn oedd y byddai'n gam cyntaf da, lle gellir gwneud cynnydd ar unwaith, symud oddi wrth caffael sy'n 100% seiliedig ar gostau i ystyried lles y cyhoedd ac economïau cylchol. Awgrymwyd hefyd:
- 💡 Ehangu'r model a weithredir ar lefel y sector cyhoeddus i gwmpasu cyfanrwydd y gadwyn gyflenwi.
 - 💡 Adolygu'r model a weithredir ar lefel y sector cyhoeddus a'i ehangu i sectorau eraill (elusennau, busnesau, bwyd, siopau, mentrau cymdeithasol).
- 3.30 Roedd cefnogaeth gref i'r defnydd o Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, gydag ymatebwyr yn ei weld fel rhywbeth sy'n unol â'r egwyddor y llygrwr yn talu, gorfodi allanolion amgylcheddol ac annog newidiadau mwy cyfrifol ar lefel dylunio. Roedd cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr yn cael ei ffafrio'n gyffredinol yn hytrach na threth uniongyrchol ar y defnydd o ddeunyddiau penodol. Roedd yn well gan weithgynhyrchwyr mwy y syniad o'r cyfrifoldeb estynedig yn cael ei weithredu ar hyd y gadwyn gyflenwi, lle credai manwerthwyr y dylai fod pwynt sengl o gydymffurfio ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi.

3.31 Roedd gan ymatebwyr ddiddordeb mewn gweithredu Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) yn effeithiol. Er y cydnabuwyd cynllun o'r fath fel un a oedd yn cael effeithiau llesol ledled Ewrop, roedd amheuan ynghylch pa mor effeithiol fyddai ar waith yng Nghymru. Yn sgil record ailgylchu Cymru sydd eisoes yn uchel, roedd y gost bosibl a'r ôl-troed carbon a allai ddeillio o sefydlu Cynllun Dychwelyd Ernes yn cael ei weld fel rhywbeth aflesol gan rai. Roedd awdurdodau lleol hefyd yn mynegi pryder y gallai Cynllun Dychwelyd Ernes amharu ar eu targedau ailgylchu. Felly, er mwyn lleihau effeithiau a allai fod yn niweidiol, roedd awgrymiadau'n cynnwys:

- 💡 Ystyried yn drwyadl y rhyngweithio rhwng Cynllun Dychwelyd Ernes newydd a chasglu'r deunyddiau hyn o garreg drws cartrefi yng Nghymru.
- 💡 Sicrhau nad oedd y Cynllun Dychwelyd Ernes yn effeithio'n negyddol ar fusnesau sy'n hwyluso'r cynllun.
- 💡 Yn ddelfrydol, rheoli'r system Cynllun Dychwelyd Ernes o dan un corff yn y Deyrnas Unedig i sicrhau cydgysylltu.

"Gallai Cynllun Dychwelyd Ernes danseilio casgliadau presennol a gostwng perfformiad cyffredinol ailgylchu."

3.32 Roedd y canolbwyntio ar y sector adeiladu hefyd yn cael ei weld fel maes gweithredu allweddol, gan ei fod yn gynhyrchwr cynradd gwastraff, gydag ôl-troed carbon mawr yn gysylltiedig â chynhyrchu deunyddiau newydd. Er mwyn gwella llwyddiant, gwnaed yr awgrymiadau canlynol:

- 💡 Canolbwyntio ar godi adeiladau o ansawdd uchel, eco-effeithlon a gwydn yn agos i amwynderau lleol.
- 💡 Ôl-ffitio a chynyddu parhauster adeiladau presennol.
- 💡 Cynyddu'r defnydd o agregau eilaidd mewn adeiladu.
- 💡 Cynnal Asesiadau Cylch Bywyd i ddefnyddio'r deunyddiau mwyaf addas.
- 💡 Gweithredu trethi carbon ar adeiladau newydd.

- 💡 Gweithio gyda byrddau adeiladu fel CITB is osod targedau ar gamau gweithredu.
- 💡 Symbylu mentrau fel y rhaglen adnewyddu tai er mwyn cefnogi arloesi.

3.33 Roedd cefnogaeth i weithredu offerynnau polisi i wella'r pontio tuag at economi gylchol. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn pwysleisio y dylai'r penderfyniad ynghylch ar ba ddeunyddiau y dylai'r offerynnau weithredu fod yn seiliedig ar Asesiad Cylch Bywyd, eu targedu at feysydd sydd â'r effeithiau amgylcheddol mwyaf a phheidio ag anfanteisio diwydiant a chystadleurwydd economaidd Cymru. Felly, gofynnwyd a fyddai angen i ddeddfwriaeth fod ar lefel y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau cae chwarae gwastad. Codwyd pryder hefyd yn y digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus sut y gellid cefnogi busnesau, megis siopau cludfwyd, a darparu'r wybodaeth addas iddynt i wneud dewisiadau amgen gwybodus pe bai deunyddiau allweddol yn cael eu gwahardd. Roedd y dewisiadau o ysgogiadau yn cynnwys:

- 💡 Gwahardd *pob* cynnyrch untro diangen.
- 💡 Gwahardd hysbysebion sy'n hyrwyddo cynhyrchion untro.
- 💡 Gweithredu'r hyn sy'n cyfateb â threth 'latte' ar eitemau untro.
- 💡 Gweithredu'r hyn sy'n cyfateb â threth siwgr ar eitemau untro.
- 💡 Trethu cynhyrchion ar sail asesiadau cylch bywyd.
- 💡 Gweithredu treth ecolegol ar gynhyrchion sy'n cael yr effaith amgylcheddol fwyaf.
- 💡 Cyflwyno gwobrau/cymorthdaliadau ariannol am weithredoedd amgylcheddol gyfeillgar a allai gyfrannu tuag at gronfeydd cymunedol.
- 💡 Dadansoddi pa ysgogiadau sydd fwyaf effeithiol ar gyfer newid ymddygiad.
- 💡 Darparu gwybodaeth a labelu.

“Mae gwahardd neu gynnig trethi ar blastigau untro, fel bagiau siopa neu gwpanau/cyllyll a ffyrc, yn arf pwysig y gall llywodraeth ei ddefnyddio i ddad-gymell ac atal y defnydd o ddeunyddiau o’r fath. Fodd bynnag, mae’n bwysig iawn fod mesurau o’r fath yn cael eu hategu gan fentrau sy’n annog aildddefnyddio deunyddiau a chynhyrchion, yn hytrach na newid o un adnodd untro i un arall.”

- 3.34 Er bod rhanddeiliaid yn cytuno â dadgymell llosgi ac yn cydnabod y gallai treth llosgi leihau’r farchnad ar gyfer peidio ag ailgylchu gwastraff, dywedwyd sawl gwaith nad yw treth yn mynd yn ddigon pell. Wrth symud tuag at economi gylchol, roedd ymatebwyr o’r farn y byddai llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu ac, felly, byddai presenoldeb llosgwyr yn anghydnaws â’r cysyniad. Yn ogystal, gyda phroblemau allyriadau nwyddau tŷ gwydr, ansawdd aer a lludw gweddilliol, roedd rhanddeiliaid yn dadlau y dylai’r strategaeth yn hytrach wahardd llosgi, neu gael gwared arno’n raddol, yn hytrach na gweithredu treth i leihau ei ddefnydd.

“I fod yn genedl ddiwastraff a di-allyriadau, ni all economi gylchol wirioneddol fodoli gyda phresenoldeb parhaus llosgwyr yn dinistrio deunyddiau darfodedig. Galwn ar i losgwyr gael eu dadgomisiynu erbyn 2030.”

Galluogi cymunedau a busnesau



Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd: Byddwn yn cefnogi dinasyddion a chymunedau i wneud y pethau bychain sydd gyda'i gilydd yn gwneud gwahaniaeth mawr. Byddwn yn ennyn diddordeb pobl ifanc fel y gallant fynd ati i ddysgu a bod yn rhan o gamau gweithredu er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithlon drwy'r sector addysg a thu hwnt.

Creu'r amodau i fusnesau achub ar gyfleoedd: Byddwn yn cefnogi pob busnes yng Nghymru i leihau ei ôl troed carbon a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i'n busnesau arbed a gwneud arian, yn ogystal â bod yn fwy cydnorth a medru cystadlu mewn marchnadoedd newydd a datblygol gan sicrhau canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol hefyd.

Penawdau'r thema

- *Mae angen annog a chefnogi cymunedau i weithredu ar y cyd a datblygu dinasyddiaeth amgylcheddol.*
- *Mae angen rhoi cymorth i fusnesau arloesi, addasu a dangos eu camau tuag at economi gylchol.*
- *Croesewir y cysyniad o Drefi Diwastraff ond mae angen ei fireinio o ran diffiniad a graddfa iddo gael effaith ystyrlon.*

Dadansoddiad

- 3.35 Roedd cytundeb cryf fod angen annog a chefnogi cymunedau i weithredu ar y cyd a datblygu dinasyddiaeth amgylcheddol. Cafodd amrywiaeth helaeth o weithgareddau cymunedol presennol i gefnogi'r economi gylchol eu crybwyll, er bod canfyddiad cyffredinol y gellid ysgogi hyn i gyflawni mwy o effaith trwy gymorth a chydgyssylltu, gan gynnwys cydweithrediadau rhwng y sector preifat, y sector cyhoeddus

a'r trydydd sector a system o rannau'r arferion gorau a'r hyn a ddysgir. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- 💡 Lledaenu'r cysyniad o eco-ysgolion ac adnoddau athrawon drwy'r holl gwricwlwm a'r gymuned.
- 💡 Cynnwys grwpiau allgwricwlaidd wrth addysgu, megis Sgowtiaid, Cadetiaid y Fyddin a Geidiaid.
- 💡 Cynyddu addysg ar werth adnoddau.
- 💡 Cynyddu'r cymorth a gynigir gan Awdurdodau Lleol a'r Llywodraeth i helpu grwpiau cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr economi gylchol.

3.36 Roedd teimlad helaeth y dylai canolbwyntio ar fusnesau fod yn flaenoriaeth, gyda chymorth yn cael ei roi i arloesi, ac y dylid adeiladu materion economi gylchol i mewn i bob ffurf o gymorth busnes. Yn groes i hyn, roedd rhywfaint o awgrym fodd bynnag mai'r agenda llesiant ddylai'r ysgogydd fod y tu ôl i unrhyw ddatblygiad tuag at economi gylchol, yn hytrach na busnes.

3.37 Roedd amryw o ymatebwyr yn galw am gymhellion i fusnesau sy'n dangos arferion da, gyda mwy o reoleiddio lle bo anogaeth yn methu. Roedd awgrymiadau'n cynnwys:

- 💡 Ei gwneud yn ofynnol i fusnesau mawr benodi swyddog economi gylchol gyda chyfrifoldeb dros fonitro prosesau a pherfformiad.
- 💡 Gweithredu graddau seren am berfformiad gwastraff effeithlon o ran adnoddau i fusnesau fel gwybodaeth i gwsmeriaid.
- 💡 Creu achrediad economi gylchol i gynyddu dyheadau busnesau a galluogi defnyddwyr i gymharu.
- 💡 Rhannu gwybodaeth am gynhyrchion (cynhyrchu a gwaredu) trwy ddigideiddio (ee codau QR) neu labelu.
- 💡 Dangos manteision economaidd pontio i fodel cynaliadwy.
- 💡 Rhannu'r arferion gorau mewn camau gweithredu economi gylchol trwy greu rhwydweithiau cymorth a chanolfannau cyfnewid gwybodaeth / arloesi, ledled Cymru ac yn rhyngwladol.


- 💡 Gweithredu rhaglenni caffael sy'n seiliedig ar yr amgylchedd – cyfalaf naturiol yn hytrach na chyfalaf arian cyfred.
- 💡 Annog cydweithio rhwng busnesau trwy greu rhwydwaith i elwa ar arferion economi gylchol a lleihau gwastraff ac anfantais ariannol posibl.
- 💡 Creu rhestr safonedig o arferion busnes da i'w dosbarthu, a'i hatgyfnerthu gan swyddogion cymorth busnes economi gylchol.

“O'i gwneud yn gywir, gall symbylu economïau lleol, creu swyddi ac adeiladu cymunedau mwy cydlynus.”

3.38 Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o Drefi Diwastraff gyda'u potensial i ystyried a gweithredu asedau sy'n bod eisoes mewn trefi – yn arbennig grwpiau cymunedol sy'n ymwneud ag arferion da (ee caffis atgyweirio, rhewgelloedd cymunedol) – fel atyniad ymwelwyr, roedd rhywfaint o amheuan ynghylch eu hymarferoldeb a phryder y gallent ddod yn 'gimic'. Holwyd a fyddai'n well gweithredu'r cysyniad ar gymunedau yn hytrach na threfi cyfan, beth oedd dichonoldeb cynnal cyfraniad y gymuned a sut y gellid ei gyflawni mewn ardaloedd â statws economaidd-gymdeithasol is. Mynegwyd rhybudd hefyd yn erbyn dieithrio busnesau trwy'r disgrifiad 'diwastraff'. Awgrymwyd ychydig o syniadau:

- 💡 Ystyried a yw tref ddi-garbon yn bwysicach na bod heb ddim gwastraff.
- 💡 Darparu cyngor a chanllawiau i annog ymddygiadau diwastraff. Er enghraifft, cyhoeddi enghreifftiau o'r arferion gorau fel Ewrop Diwastraff, Syrffwyr yn erbyn Carthion.
- 💡 Ystyried sut y gellid cynnwys aneddiadau gwledig ehangach o fewn y cysyniad.
- 💡 Datblygu cystadlaethau rhwng trefi i ddangos cynnydd ac 'efeillio' gyda threfi o gyffelyb fryd mewn gwledydd eraill.

Buddsoddi mewn seilwaith



Buddsoddi mewn technoleg lân er mwyn casglu

deunyddiau: Byddwn yn moderneiddio'r ffordd rydym yn casglu'r deunydd o'n cartrefi a'n busnesau i leihau allyriadau carbon deuocsid o drafnidiaeth a gwella ansawdd aer, drwy gyflwyno cerbydau heb allyriadau a buddsoddi mewn seilwaith i'w gwefru a rhoi pŵer iddynt mewn ffordd gynaliadwy.

Penawdau'r thema

- *Er mwyn galluogi dim gwastraff a charbon isel, mae angen seilwaith rhanbarthol a hygyrch a chanolbwyntiau cymunedol i ymdrin â deunyddiau â blaenoriaeth iddynt.*
- *Mae angen cludiant effeithlon o ran adnoddau wrth reoli gwastraff, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig.*
- *Dylai pobl ifanc, ysgolion a rhanddeiliaid economi gylchol gael eu cynrychioli mewn penderfyniadau ynghylch gweithredu seilwaith.*

Dadansoddiad

- 3.39 Trwy'r holl ddigwyddiadau a'r ymgynghori ar-lein, roedd llai o bwyslais ar gamau gweithredu sy'n ymwneud â sefydlu seilwaith ffisegol i gefnogi'r economi gylchol.
- 3.40 O ran seilwaith ar gyfer pontio i ddim gwastraff a charbon isel, cynigwyd amrywiaeth helaeth o awgrymiadau. Roedd gweithio rhanbarthol yn cael ei weld fel rhywbeth pwysig iawn, o bosibl gyda set o gyfrifoldebau haenog a chysylltiedig ar lefel ranbarthol (gan gynnwys dinas ranbarthau), awdurdod lleol a chymuned. Byddai sefydlu canolbwyntiau rhanbarthol yn galluogi seilwaith lleol i ymdrin â deunyddiau blaenoriaeth, gyda'r gred y byddai'n cynyddu hygyrchedd cyhoeddus ac ansawdd y deunydd eildro a lleihau lefel gyffredinol y seilwaith y byddai ei angen.

“Mae gweithio’n rhanbarthol ac yn fwy lleol gyda chymunedau unigol yn hanfodol”.

3.41 Roedd ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd sefydlu seilwaith cymunedol sy’n ymwneud â’r economi gylchol. Er gwaethaf pryderon bod dirywiad y stryd fawr yn lleihau hyfywedd seilwaith o’r fath, roedd yn cael ei weld hefyd fel rhywbeth a oedd yn cynnig y potensial i adfywio cymdogaethau. Pwysleisiwyd y dylai’r seilwaith fod yn addas ar gyfer y dyfodol a’i fod yn ystyried y newid mewn blaenoriaethau tuag at atal ac uwchgylchu ac oddi wrth lawrgylchu. Roedd y cynigion yn cynnwys:

- 💡 Sefydlu compostwyr mewn trefi.
- 💡 Rhoi disgownt ar rent i fusnesau newydd sy’n ymwneud â’r economi gylchol.
- 💡 Ailfuddsoddi arian o ddirwyon (gweler ysgogiadau’r Llywodraeth) i sefydlu seilwaith economi gylchol cymunedol (cronfa fuddsoddi gylchol).

3.42 Dadleuwyd dros weithredu seilwaith economi gylchol sy’n effeithlon o ran adnoddau, fel:

- 💡 Cynyddu cludiant ynni-effeithlon ar gyfer casglu gwastraff, gan gynnwys hyfywedd trydaneiddio mewn ardaloedd gwledig a gwneud y defnydd gorau o gerbydau ar ffyrdd gwledig trwy wasanaethu dibenion dwbl (ee post a danfon nwyddau).
- 💡 Gweithredu seilwaith gwefru cerbydau trydan.
- 💡 Gweithredu’r seilwaith angenrheidiol i annog aildddefnyddio mewn tai newydd, yn enwedig lleoedd storio ar y cyd ar gyfer rhannu deunyddiau a chynhyrchion.
- 💡 Creu cynllun i roi’r gorau’n raddol i losgi.

3.43 O safbwynt penderfynu ar y seilwaith addas i’w roi ar waith, roedd ymatebwyr yn dymuno gweld mwy o gynrychiolaeth o bobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ac yn gweld rôl i ysgolion mewn creu polisïau. Yn ogystal, credai llawer ei bod yn bwysig y dylai rhanddeiliaid

economi gylchol fod yn nodwedd barhaol ym mhob corff gwneud penderfyniadau.

Cwestiynau eraill

- 3.44 Roedd canfyddiad y gallai economi gylchol leol adeiladu neu gryfhau cyfleoedd mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith. Y farn oedd ei bod yn hanfodol fod yr holl ganllawiau technegol yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg er mwyn hyrwyddo hyn.
- 3.45 Roedd awgrym y byddai defnyddio'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg fel rhan annatod o 'hunaniaeth' y fenter yn ffordd effeithiol iawn o helpu cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.

4. Casgliadau

- 4.1 Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o ymatebwyr, a'r rhai a ddaeth i ddigwyddiadau, ag agwedd gadarnhaol at y cynigion a wnaed ac at weithredu strategaeth economi gylchol yng Nghymru.
- 4.2 Cafodd y dull o geisio safbwyntiau a syniadau gan ymatebwyr a mynychwyr ei groesawu fel un rhyngweithiol ac a oedd yn ennyn diddordeb.
- 4.3 Rhywbeth neilltuol o amlwg yn y digwyddiadau oedd, er bod llawer o broblemau ynghylch cyflawni'r economi gylchol wedi cael eu hadnabod, roedd yr atebion yn aml yn anodd i'w canfod. Fodd bynnag, o'r data a gasglwyd o'r ymgynghoriad ar-lein ac wyneb yn wyneb, mae awgrymiadau sy'n werth eu nodi wrth symud ymlaen yn cynnwys:
- Yr angen i ystyried ac amlygu egwyddorion hierarchaeth gwastraff ac economi gylchol wrth weithredu a blaenoriaethau camau gweithredu (ee dadflaenoriaethu camau megis ailgylchu a llosgi).
 - Defnyddio rôl Llywodraeth Cymru wrth annog newid, trwy ysgogiadau'r Llywodraeth, rhoi cymorth i gymunedau a busnesau, a chysoni gweithredoedd â pholisïau ehangach Cymru a'r Deyrnas Unedig.
 - Yr angen i gynyddu gwybodaeth, ar yr economi gylchol fel cysyniad, a sut y gall deunyddiau, cynhyrchion ac arferion ei chefnogi.
 - Yr angen i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch treuliant a defnydd deunyddiau trwy gyflawni Asesiadau Cylch Bywyd.
 - Rôl cydweithio rhwng cymunedau a busnesau (yng Nghymru ac yn rhyngwladol) i rannu'r arferion gorau a sicrhau dichonoldeb gweithredoedd.

Atodiad A: Crynodeb o randdeiliaid

Atodiad B: Rhestr o ymatebion gan sefydliadau

Listed below is a complete set of organisations or membership groups that responded to the Beyond Recycling Consultation.

- ACE UK
- Alupro
- Anaerobic Digestion and Bioresources Association
- Anois
- Asiantaeth Ynni Severn Wye
- Association of Convenience Stores
- Automatic Vending Association
- Banc Cymunedol Robert Owen
- Benders Paper Cups
- Benthylg
- Biffa
- Bike to the Future
- Black Star and Monkey
- British Glass
- BSNA
- Budweiser Brewing Group
- Busy Fingers
- Buttington Incinerator Impact Group
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
- Canton Repair Café
- Chemical Industries Association
- Circulogic
- CITB
- Codwyr Sbwriel Cymuned Celtic Horizons
- Consortiwm Manwerthu Cymru
- Cultivate
- Cwm Harry
- Cyfeillion y Ddaear

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain (BSDA)
- Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
- Cymdeithas Gydweithredol Cymru
- Cymru Gynaliadwy
- Cynghorydd Tref Cas-gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Cymuned Argoed
- Cyngor Cymuned Gwynllwg
- Cyngor Cymuned Pentyrch
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cymru
- Cyngor Sir Benfro
- Cyngor Sir Casnewydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Tref yr Wyddgrug
- Cyngor Trefynwy
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Danone
- Dŵr Cymru
- EEESafe and LocalitEEE
- Electrical Safety First
- Etoeto
- Facadeclick
- FareShare Cymru
- FCC Environment
- Ffederasiwn Bwyd a Diod
- Ffederasiwn Plastigau Prydain
- Frugalpac
- FSB Cymru

- Gardd Organig Garth Hillside
- Green Stream Flooring
- Greenpeace Caerdydd
- Grŵp My World My Home Pont-y-cymer
- Grŵp Ynni Trefaldwyn (grŵp gwirfoddol sy'n codi ymwybyddiaeth o newid hinsawdd yn Nhrefaldwyn, Powys)
- Gwasanaeth Amgylchedd Williams Envi
- Gŵyl y Gelli
- Huhtamaki
- IBERS
- IEAP
- Impact Recycling
- INCPEN
- Landworkers Alliance
- Liquid Gas UK
- Lucozade Ribena Suntory
- Mineral Products Association
- Natural Source Waters Association (Natural Hydration Council gynt)
- Nestle UK & Ireland
- One Planet Life
- Paper Cup Alliance
- Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
- Plaid Lafur Llandidloes
- Plaid Werdd Cymru
- Pontydysgu Ltd
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Manceinion
- Pupils to Parliament
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru
- Pwyllgor Llywio Lleihau Plastig yr Wyddgrug
- Pwyllgor Ymgynghorol Ailgylchu Awdurdodau Lleol (LARAC)

- RECOUP
- Regeneras
- Region Superfos Beverage Systems
- Repair Cafe Cymru
- ROCKWOOL Ltd
- Salvation Army Trading Company Ltd
- Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (CIWM)
- Sefydliad Treuliant Cynaliadwy, Prifysgol Manceinion
- Sefydliad y Merched / WI
- Serco-Superfast Business Wales
- SUEZ
- TFSR Cymru
- The J Trust
- The One Planet Centre
- The TYF Group
- The Vegan Society
- Timber Procurement Executive
- Too Good to Waste
- Torfaen Litter Champions
- Transition Bro Gwaun
- Trefnydd gwirfoddol Dusty Forge Repair Cafe
- Trydan Cyf
- Un o drigolion Cas-gwent a Chydgysylltydd Plastic Free Chepstow
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Veolia
- Woodknowledge Wales
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Ymlaen Moelyci Cyfyngedig
- Ynni Cymunedol Caerdydd
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

- Zero Waste Europe
- Zero Waste Intl

Atodiad C: Penawdau – Ymgynghoriad Bangor, 27^{ain} Chwefror 2020

1. Argraffiadau cyffredinol

1.1 Diffiniadau o derminoleg allweddol:

- Economi gylchol – angen mwy o addysg ar y diffiniad.
- Gwastraff – cyn gynted ag y caiff rhywbeth ei gategoreiddio fel gwastraff, caiff ei drin felly. O'r herwydd, dylai deunyddiau gael eu dosbarthu fel 'adnoddau'.

1.2 Addasrwydd themâu craidd:

- Mae'r chwe thema'n cynnwys llawer o elfennau 'iawn'.
- Gwelliannau:
 - Mwy o gamau gweithredu pendant. Ar hyn o bryd, mae'r camau gweithredu o fewn pob thema yn darllen yn fwy fel amcanion.
 - Cymryd agwedd gyfannol. Caiff y themâu eu cyflwyno fel rhai ar wahân, eto maent i gyd yn gofyn am elfen allweddol o newid diwydiant.
 - Adlewyrchu'r hierarchaeth gwastraff. Gwelir bod y canolbwyntio ar ailgylchu yn bennaf ond dylai fod cydnabyddiaeth o'r hierarchaeth gwastraff o fewn y ddogfen.
 - Bod yn fwy mesuradwy. Mwy o dargedau a cherrig milltir i helpu'r amcanion sydd yn y ddogfen i gael eu cyflawni.

2. Thema: Adeiladu ar ein record ailgylchu

2.1 Addasrwydd camau a awgrymir:

- Ni ddylai ailgylchu gael ei ddarlunio fel yr arfer gorau – mae cynhyrchion a lawrgylchwyd yn dal i fod ag effeithiau amgylcheddol sylweddol.

2.2 Cysondeb mewn trefniadau ailgylchu ledled Cymru:

- Angen cydlyniant ynghylch pa eitemau y gellir eu hailgylchu yng Nghymru ac yn lle.
- Ar hyn o bryd, mae ailgylchu'n ddibynnol iawn ar seilwaith amrywiol awdurdodau lleol sy'n creu dryswch gyda phoblogaeth sy'n symud.

2.3 Camau eraill a awgrymir:

- Cael gwared ar rwystrau rhag ailgylchu – hygyrchedd, cyllid, gwybodaeth.
- Cynyddu pwysau ar gynhyrchwyr.
- Ehangu'r canolbwyntio ar y ffrwd gwastraff.
- Datblygu targedau i bawb, gan gynnwys busnesau preifat / masnachol.
- Datblygu ailgylchu yn y fan a'r lle – biniau ailgylchu ar strydoedd / mewn parciau.

3. Thema: Rhoi cymorth i atal gwastraff ac ailddefnyddio

3.1 Camau i hyrwyddo ymhellach y gwaith ar atal gwastraff ac ailddefnyddio:

- Datblygu seilwaith a chyllid i gefnogi gwirfoddolwyr:
 - Siopau / caffis atgyweirio
 - Llyfrgelloedd pethau
 - Adeiladu sgiliau.
- Rhwydweithiau busnes – sut y gall gwastraff un busnes fod o fudd i fusnes arall.
- Dylanwadu ar ddiwydiant. Fwyfwy, mae'n anodd atgyweirio nwyddau – diffyg rhannau ar gael etc – ac nid yw pethau'n cael eu hadeiladu i barhau.

3.2 Datblygu ac ehangu'r gwaith mewn ysgolion ar atal gwastraff ac ailddefnyddio:

- Hanfodol, mae ar economi gylchol angen hyrwyddo ac addysg.

3.3 Camau i osgoi gwastraff bwyd:

- Addysg – ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ynghylch gwastraff bwyd, cymharu labeli ‘gorau cyn’ a ‘defnyddier erbyn’.
- Hyrwyddo apiau digidol.
- Pwysau ar archfarchnadoedd – rhwystro cynigion (ee 3 am 2), cynyddu eu cyfrifoldeb.
- Compostwyr lleol.
- Cynyddu cymorth ariannol i gwmnïau sy’n cynhyrchu a gwerthu bwyd.

3.4 Camau eraill a awgrymwyd:

- Cynyddu cyfrifoldeb. Gwthio am fwy o gyfrifoldeb ar hyd yr holl gadwyn gyflenwi ac ehangu’r canolbwyntio y tu hwnt i’r sector cyhoeddus yn unig.
- Gwella systemau rheoli ansawdd er mwyn lleihau gwastraff.
- Adolygu deddfwriaeth a all fod yn rhwystr i aildddefnyddio (ee profi offer cludadwy (PAT), diogelwch tân).
- Cymell cynhyrchion y gellir eu haildddefnyddio.

4. Thema: Llywio arloesi a’r defnydd o ddeunyddiau

4.1 Deunyddiau i ganolbwyntio arnynt:

- Dylai’r canolbwyntio fod ar bob deunydd / cynnyrch untro. Nid plastig untro yn unig.

4.2 Yr angen am newidiadau wrth gynllunio cynhyrchion:

- Rhwystro ‘plastig-ffobia’ mewn cynnyrch sydd eisoes yn bod.
- Sicrhau cymorth fel y gall pob busnes gynhyrchu cynhyrchion y gellir eu hailgylchu/aildddefnyddio.
- Hyrwyddo cynlluniau am nwyddau gwydn sy’n parhau gyda’r potensial am ailfodelu.

4.3 Camau eraill a awgrymir:

- Tryloywder cadwyni cyflenwi. Cynhyrchion a’u deunyddiau i gael gwybodaeth glir am ôl-troed carbon (ee nifer o weithiau sydd angen eu defnyddio).

- Defnyddio'r hyn a ddysgwyd oddi wrth fusnesau ar leihau gwastraff.

5. Thema: Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth

5.1 Blaenoriaeth ar gaffael sy'n effeithlon o ran adnoddau o fewn y sector cyhoeddus:

- Angen canolbwyntio ar gaffael yn ehangach, hefyd o fewn y sector preifat er mwyn i'r strategaeth weithio.

5.2 Blaenoriaeth ar ddefnydd o ddeunyddiau ac effeithlonrwydd adnoddau mewn adeiladu:

- Amau'r dyhead o darged ailgylchu o ddim ond 90%.
- Y diwydiant adeiladu yn gor-brynu yn aml – a oes potensial am godi tâl am eitemau gwastraff y gellid bod wedi eu hailgylchu?

5.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Ystyried yr hyn sydd gyfwerth â threth siwgr er mwyn annog cyfrifoldeb cynhyrchwyr.
- Achredu er mwyn sicrhau cysondeb a chymaradwyedd mewn arferion rheoli gwastraff.
- Yr angen i werthuso offerynnau polisi effeithiol a dysgu oddi wrth wledydd eraill (ee Talu wrth daflu).
- Yr angen am well gorfodi a phlisma rheolaeth gwastraff.

6. Thema: Galluogi cymunedau a busnesau

6.1 Cymorth busnes ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau fel blaenoriaeth:

- Canolbwyntio ar addysg a rhannu gwybodaeth i'r holl randdeiliaid yn flaenoriaeth.
- Yr angen i gefnogi pobl heblaw y rhai amlwg.

6.2 Trefi Diwastraff:

- Cysyniad dymunol.
- Anawsterau gyda'r diffiniad – swnio fel gimic – a diffyg safon glir.

- Anawsterau o ran rhoi hyn ar waith mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

6.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Ni ddylai'r term 'cymunedau' gael ei weld fel lleoliad yn unig, dylai fod canolbwyntio ar gefnogi cymunedau rhithiol yn ogystal.
- Mwy o ganolbwyntio a mwy o rôl i ddigideiddio ac apiau.
- Darparu hyfforddiant fel bod cymorth gwybodus ar gael.

7. Thema: Buddsoddi mewn seilwaith

7.1 Gweithio'n rhanbarthol dros effeithlonrwydd adnoddau:

- Pwysigrwydd ystyried anghenion cymunedau gwledig.
- Buddsoddi mewn seilwaith effeithlon a glanach er mwyn rhwystro cloi i mewn (ee cerbydau hydrogen neu diesel).
- Sicrhau'r cerbydau a buddsoddi mewn storfeydd biniau ar gyfer casgliadau ar ffyrdd gwledig.

7.2 Camau pellach a awgrymwyd:

- Sut caiff seilwaith ei ddatblygu i ddygymod â thechnolegau sy'n dechrau dod i'r amlwg fel batris?
- Sicrhau bod y dull o losgi gwastraff ar gyfer ynni yn glir.

Atodiad D: Penawdau – Ymgynghoriad Arberth, 5^{ed} Mawrth 2020

1. Argraffiadau cyffredinol

1.1 Mae'r ddogfen yn mynd i'r cyfeiriad iawn.

1.2 Gwelliannau:

- Mae'r camau a awgrymir yn gyffredinol iawn ar hyn o bryd.
- Cynyddu cysylltiadau'r strategaeth ag allyriadau carbon – ddim yn digon cryf ar hyn o bryd.
- Mae'r strategaeth yn gofyn am newid diwylliant, ond mae'n aneglur sut y gwiredir hyn.

2. Thema: Adeiladu ar ein record ailgylchu

2.1 Cysondeb mewn trefniadau ailgylchu ledled Cymru:

- Mae angen unffurfiaeth ymhlith Awdurdodau Lleol ynghylch beth y gellir ei ailgylchu.
- Safoni ailgylchu – tebyg i safon bwyd.

2.2 Camau pellach a awgrymwyd:

- Cael gwared ar rwystrau rhag ailgylchu – addysg a hygyrchedd (yn enwedig rhentu tai gwyliau a myfyrwyr).
- Atgynhyrchu prosesau ailgylchu cartref i fusnesau.
- Cynyddu'r cymhelliad i ailgylchu – gwobrau.

3. Thema: Rhoi cymorth i atal gwastraff ac ailddefnyddio

3.1 Thema allweddol i'r economi gylchol.

3.2 Camau i hybu ymhellach y gwaith ar atal ac ailddefnyddio:

- Hyrwyddo parhauster nwyddau o fewn diwydiant.
- Cysylltu rhwydwaith o ffermydd i rannu cyfleusterau gwastraff (compostwyr).
- Yr angen am ladmerydd i hyrwyddo ailddefnyddio (effaith David Attenborough).

3.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Cynllun i ymdrin â goblygiadau iechyd a diogelwch prynu deunyddiau gwastraff rhywun arall.

4. Thema: Llywio arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau

4.1 Deunyddiau i ganolbwyntio arnynt:

- Dylid canolbwyntio ar ddeunyddiau / cynhyrchion untro fel cyfanrwydd (ee cwpanau diodydd untro, beth bynnag yw'r deunydd maent wedi'i wneud ohono). Nid plastig untro yn unig.
- Mae angen i blastigau fod yn fwy gronynnol – ee canolbwyntio ar fioblastigau.

4.2 Angen am newidiadau yn y ffordd y caiff cynhyrchion eu cynllunio:

- Rhwystro pardduo plastig yn gyfan gwbl, gwahardd y ffurfiau 'drwg' yn unig.
- Mae dyluniad cynhyrchion yn bwysig – dylid hyrwyddo agweddau fel labelau cardbord.
- Os yw plastig yn ofynnol, dim ond mathau y gellir eu hailgylchu'n llwyr a ddylai fod ar gael.
- Darparu cyllid i gychwyn cwmnïau newydd gyda syniadau am ddyluniadau arloesol.
- Hyrwyddo dyluniadau modiwlaid.
- Mwy o wybodaeth ar becynnau ynghylch beth mae'r deunydd/cynnyrch yn ei gynnwys fel y gall defnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.
- Gofynion cynhyrchion i gynnwys lefel benodol o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu.

4.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Tryloywder cadwyni cyflenwi. Cyfleu ôl-troed carbon deunyddiau.

5. Thema: Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth

5.1 Blaenoriaeth i gaffael effeithlon o ran adnoddau o fewn y sector cyhoeddus:

- Rôl y Llywodraeth yw arwain trwy esiamp.

5.2 Camau pellach a awgrymwyd:

- Tâl am eitemau untro (fel y gwelwyd gyda'r tâl am fagiau siopa).
- Sicrhau bod pob cwmni o dan yr un ddeddfwriaeth.
- Treth ar gynhyrchion sydd â chostau amgylcheddol.

6. Thema: Galluogi cymunedau a busnesau

6.1 Cymorth ar gyfer effeithlonrwydd ynni i fusnesau fel blaenoriaeth:

- Yr angen i bob busnes fod yn cymryd rhan a chael eu cynnwys.

6.2 Camau pellach a awgrymwyd:

- Canolbwynt cyswllt ar y cyd – lle gellir cyfnewid a rhannu'r arferion gorau.

7. Thema: Buddsoddi mewn seilwaith

7.1 Gweithio'n rhanbarthol dros effeithlonrwydd adnoddau:

- Rôl canolfannau casglu yn hytrach na chasglu o dai.

Atodiad E: Penawdau – Ymgynghoriad Cas-gwent, 9^{fed} Mawrth 2020

1. Argraffiadau cyffredinol

1.1 Mae angen i'r strategaeth derfynol fod yn radical ac uchelgeisiol.

1.2 Pwysigrwydd newid diwylliant:

- Angen i'r strategaeth ennyn edmygedd mewn gofalu.
- All y strategaeth ddatblygu brand newydd Cymreig – Cenedl Werdd?

1.3 Gwelliannau:

- Angen i'r strategaeth gael ei mesur.
- Mae'r diffiniad o economi gylchol yn dal yn gymhleth. Dylai'r canolbwyntio fod ar atal gwastraff.

2. Thema: Adeiladu ar ein record ailgylchu

2.1 Addasrwydd camau a awgrymir:

- Mae ailgylchu'n bwysig ond ni ddylai fod yn ganolbwynt y strategaeth.

2.2 Cysondeb mewn trefniadau ailgylchu ledled Cymru:

- Yr angen am unffurfiaeth ledled Cymru.
- Cyfathrebu ynghylch pa eitemau y gellir eu hailgylchu (labelu?).

2.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Gwella hygyrchedd cyfleusterau (materion trawsffiniol, biniau mewn trefi, oriau agor, treth cyngor).
- Gwobrwyo pobl am ailgylchu.

3. Thema: Rhoi cymorth i atal gwastraff ac ailddefnyddio

3.1 Datblygu seilwaith a chyllid i helpu gwirfoddolwyr:

- Siopau / caffis atgyweirio.

- Canolbwyntio ar adeiladu sgiliau a mynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau – rhywbeth sy'n absennol o'r strategaeth ar hyn o bryd.

3.2 Camau i osgoi gwastraff bwyd:

- Addysg – gwastraff dianghenraid vs. angenrheidiol, gwastraff bwyd cudd.
- Pwyso ar archfarchnadoedd a gweithio gyda nhw – cynyddu eitemau rhydd a chael gwared ar gynigion crynswth.
- Rôl bosibl treulwyr cymunedol – mae angen cefnogaeth ariannol.

4. Thema: Llywio arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau

4.1 Deunyddiau i ganolbwyntio arnynt:

- Cael gwared yn raddol â chynhyrchion untro yn eu cyfanrwydd.

4.2 Angen am newidiadau wrth gynllunio cynhyrchion:

- Dryswch ynghylch y pwyslais ar bren – dylid dadflaenoriaethu deunyddiau terfynedig yn hytrach na blaenoriaethu pren.
- Cefnogaeth i arloesi dyluniadau trwy gyllid.

4.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Cynyddu dealltwriaeth o'r cynnyrch – pam a sut y caiff deunydd ei ddewis.
- Cyfle am frandio newydd – 'Ailgylchwyd / Ail-wnaed yng Nghymru'.

5. Thema: Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth

5.1 Blaenoriaeth ar gaffael effeithlon o ran adnoddau o fewn y sector cyhoeddus:

- Pwysigrwydd i'r Llywodraeth arwain trwy esiampyl.
- Cydberthynas camau gweithredu'r Llywodraeth â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

5.2 Camau pellach a awgrymwyd:

- Safonau labelu Cymru – canolbwyntio ar wydnwch a pharhauster a/neu y gallu i'w ailgylchu.

- Cefnogaeth i 'ffyn' – trethi llosgi, Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR).
- Gwella'r cyfleoedd am wybodaeth – nid i blant yn unig.
- Rhoi cymorth i alluogi busnesau ddod at ei gilydd a chydweithio.

6. Thema: Galluogi cymunedau a busnesau

6.1 Cymorth i fusnesau ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau fel blaenoriaeth:

- Yr angen i gefnogi siopau sy'n hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau (ee dim gwastraff) gan eu bod yn anhyfyw yn hinsawdd presennol y stryd fawr.

6.2 Trefi Diwastraff:

- Atyniad posibl i ymwelwyr. Gallai economi gylchol helpu adfywio'r stryd fawr.

6.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Creu lle / rhwydwaith cyfnewid gwybodaeth. Gallai fod yn lle ffisegol lle gellir storio a chyfnewid eitemau.
- Gweithredu cronfa cefnogi her i helpu grwpiau cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr economi gylchol.

7. Thema: Buddsoddi mewn seilwaith

7.1 Camau pellach a awgrymwyd:

- Cynyddu gallu tai i storio a rheoli gwastraff.
- Datblygu lleoedd a fydd yn helpu'r economi gylchol (canolfannau cymunedol, cyfleusterau ar y cyd ar gyfer compostio).
- Buddsoddi mewn trafnidiaeth werdd – pwyntiau gwefru, tanwydd hydrogen.

Atodiad F: Penawdau – Ymgynghoriad yr Wyddgrug, 12^{fed} Mawrth 2020

1. Argraffiadau cyffredinol

- 1.1 Er mwyn cyflawni amcanion y strategaeth, mae'n gofyn am newid diwylliant a lleihau prynwriaeth. Mae addysg yn hanfodol, ynghyd â lledaenu'r hyn a ddysgwyd ac arloesi – cyflwyno naws gemau i negeseuon ailgylchu?

2. Thema: Adeiladu ar ein record ailgylchu

- 2.1 Addasrwydd camau a awgrymir:

- 2.2 Cysondeb mewn trefniadau ailgylchu ledled Cymru:

- Yr angen am unffurfiaeth ledled Cymru – o ran beth y gellir ei ailgylchu a'r seilwaith sy'n angenrheidiol.
- Cyfathrebu ynghylch pa eitemau y gellir eu hailgylchu.

- 2.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Newid y pwyslais at yr hyn na chaiff ei ailgylchu, yn hytrach na'r hyn a gaiff ei ailgylchu. (Mater o gyfran uchel o swm mawr yn cael ei ailgylchu; canolbwyntio ar leihau gwastraff yn gyffredinol).
- Gwellu hygyrchedd cyfleusterau (canolfannau ailgylchu symudol, canolbwyntiau ailgylchu mewn trefi, gwybodaeth ar lle mae ailgylchu'n digwydd).
- Cydweithio gyda busnesau a gwledydd i ddysgu a rhannu'r arferion gorau ar ailgylchu.
- Adnabod pa eitemau na chaiff eu hailgylchu i raddau helaeth a datblygu strategaethau i ganolbwyntio ar gynyddu eu cyfradd ailgylchu.
- Cynyddu'r farchnad yng Nghymru am ddeunyddiau a ailgylchwyd.
- Datblygu modelau ar gyfer priodoli ailgylchu i gymunedau penodol er mwyn annog cyfranogiad trwy gystadleuaeth. Mae Gwlad Pwyl yn gwobrwyo trefi sy'n perfformio'n dda.

- Angen am dargedau yn y strategaeth.
- Mwy o weithredu ar ailgylchu mewn busnesau.

3. Thema: Rhoi cymorth i atal gwastraff ac ailddefnyddio

3.1 Cefnogi atal:

- Adeiladu ar yr hawl i atgyweirio. Mynd i'r afael â'r broblem o atgyweirio yn costio mwy na'r gost o brynu. Cefnogi symudiadau tuag at fodel prydlesu sy'n seiliedig ar wasanaethu.
- Canolbwyntio ar dargedu'r gadwyn gyflenwi i gynyddu parhauster cynhyrchion.
- Cofnodi gwerthiannau mewn siopau ail law er mwyn mesur yr economi gylchol.
- Cefnogi datblygu a chydabod sgiliau atgyweirio mewn cymunedau.

3.2 Camau i osgoi gwastraff bwyd:

- Cynyddu cydweithredu rhwng Llywodraethau, cynhyrchwyr/gweithgynhyrchwyr ac archfarchnadoedd.
- Pwyso ar archfarchnadoedd a gweithio gyda nhw – cynyddu'r graddau mae eitemau rhydd ar gael.
- Codi pris bwydydd a fewnforiwyd er mwyn annog pryniant lleol a thymhorol.
- Addysg i ddysgu pobl i goginio a defnyddio sbarion bwyd.
- Ailedrych ar ddyddiadau 'gorau cyn'/'defnyddier erbyn' er mwyn ysgogi dewis mwy gwybodus.

4. Thema: Llywio arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau

4.1 Deunyddiau i ganolbwyntio arnynt:

- Cael gwared yn raddol â chynhyrchion untro yn eu cyfanrwydd.
- Pren ar gyfer tai ac adeiladau eraill.
- Gwlân defaid ar gyfer inswleiddio.

4.2 Angen am newidiadau mewn dyluniadau cynhyrchion:

- Ymchwilio i becynnau bioddiraddadwy a allai ddiraddio ar ôl cyrraedd dyddiad penodol.
- Cyflwyno cystadlaethau ailgylchu i symbylu dyluniadau newydd.

4.3 Camau pellach a awgrymwyd:

- Annog y gallu i gymharu – enwi a chywilyddio / codau QR.
- Annog codi adeiladau cynaliadwy o bren (sydd hefyd yn datrys y prinder tai). Gall weithredu fel dalfa garbon ac annog economi leol / cadwyn gyflenwi fer. Rhatach i'w gludo na briciau / blociau.
- Gallai caffael bennu fframiau pren – hefyd cyfle i ddefnyddio polisi / deddfwriaeth cynllunio? (Gall bennu “carbon isel”.)
- Rôl Cymru fel peilot – yn enwedig mewn adeiladu tai cymdeithasol.

5. Thema: Defnyddio ysgogiadau'r Llywodraeth

5.1 Blaenoriaeth i gaffael adnoddau'n effeithlon o fewn y sector cyhoeddus:

- Dylid canolbwyntio ar sectorau sy'n cael yr effaith amgylcheddol mwyaf.
- Gellid seilio'r gwerth gorau ar Gyfalaf a Chyfred Naturiol.
- Angen addysg ar gyfer gweithwyr proffesiynol caffael.

5.2 Camau pellach a awgrymwyd:



Trethiant:

- Lleihau Treth ar Werth ar gynhyrchion amgylcheddol-gyfeillgar.
- Treth ecolegol ar ddeunyddiau crai.



Gwahardd plastigau untro.

6. Thema: Galluogi cymunedau a busnesau

6.1 Camau pellach a awgrymwyd:

- Creu lle / rhwydwaith cyfnewid gwybodaeth. Gellid defnyddio grwpiau sy'n bod eisoes fel Sefydliad y Merched fel man cychwyn.

- Busnesau i gyrraedd statws siartr economi gylchol.
- Defnyddio rhwydweithiau sy'n bod eisoes i gyfleu negeseuon cylchol (clybiau chwaraeon, Sefydliad y Merched, cymdeithasau eraill).
- Mekanweithiau ar gyfer lledaenu a rhannu'r arferion gorau.

7. Thema: Buddsoddi mewn seilwaith

7.1 Camau pellach a awgrymwyd:

- Cynyddu caffael deunyddiau wedi eu hailgylchu gan y sector adeiladu.
- Cefnogi datblygiad seilwaith cymuned a all gefnogi'r economi gylchol leol (ee adeiladau ar gyfer llyfrgelloedd pethau).
- Buddsoddi mewn cyfleusterau compostio diwydiannol.
- Cynllun codau bar / QR ar gyfer pecynnau a deunyddiau eraill i helpu gyda dewisiadau ailgylchu.